Cyllid & Tollau EM

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

CYNNWYS

Cwblhau'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau SN1

Cynlluniau cyfranddaliadau cyflogai SN2

- Cynlluniau cyfranddaliadau a gymeradwywyd SN2
- Cynlluniau annog perchenogaeth cyfranddaliadau a gymeradwywyd SN2

Opsiynau Gwarantau SN3

- Cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion a gymeradwywyd SN3
- Cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd SN3
- Opsiynau Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI) SN4
- Pob cynllun opsiwn gwarantau SN6
- Aseinio neu ryddhau opsiynau SN6
- Cynlluniau opsiynau Gwarantau nas cymeradwywyd (gan gynnwys opsiynau cyfranddaliadau) SN6
- Arfer opsiwn Gwarantau SN6

Gwarantau a gaffaelwyd SN8

- Gwarantau a gaffaelwyd drwy'ch cyflogaeth SN8
- Gwarantau neu opsiynau a gaffaelwyd fel rhan o gynllun osgoi treth SN8
- Gwarantau sy'n agored i risg fforffedu SN8
- Gwarantau fel buddiannau SN8
- Digwyddiadau ôl-gaffael SN8

TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflenni Cymorth sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth arbennig ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau ar gael o'r Llinell Archebu. Mae mwy o wybodaeth ar Gynlluniau Cyfranddaliadau ar ein gwefan **www.hmrc.gov.uk/shareschemes**

- *IR216: Securities as benefits*
- *IR217: Securities acquired: post-acquisition charges*
- *IR218: Employee shares: Operation of Pay As You Earn (PAYE) and National Insurance contributions (NICs)*
- *IR219: Securities acquired from your employment*
- *IR287: Employee share and security schemes and Capital Gains Tax*

Cwblhau'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau

Bydd y Nodiadau hyn yn dweud wrthych ym mha amgylchiadau y mae'n rhaid i chi dalu treth ar opsiynau cyfranddaliadau neu gyfranddaliadau a gewch am ddim neu yn rhad oherwydd eich cyflogaeth. **Yn effeithiol o rai dyddiadau penodol yn 2003-04, bydd treth hefyd yn cael ei chodi ar warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (sy'n cynnwys cyfranddaliadau) ac ar opsiynau i gaffael y gwarantau hyn. Cewch hyd i ddiffiniad a rhestr o warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth o dan y pennawd 'Gwarantau a gaffaelwyd' ar dudalen SN8. Dangosir y dyddiadau perthnasol yn y Taflenni Cymorth priodol.**

Mae pob achlysur trethadwy yn 'ddigwyddiad trethadwy'. Dim ond un copi o Dudalen S1 o'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau y mae'n rhaid i chi ei gwblhau - mae'n grynodeb o'ch holl ddigwyddiadau trethadwy am y flwyddyn. **Mae'n rhaid i chi gwblhau copi ar wahân o dudalennau S2 neu S3 y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau ar gyfer pob digwyddiad trethadwy.** Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopïau pellach, neu gallwch ddefnyddio llungopïau. (Os defnyddiwch lungopi, rhowch eich enw a'r cyfeirnod treth ar frig y copi.)

Er enghraifft, gallwch arfer opsiynau mewn cynllun ar sail cynilion a gymeradwywyd ddwywaith mewn un flwyddyn, dros gyfranddaliadau mewn dau gwmni gwahanol. Yn yr achos hwn:

- cwblhewch gopi o **Dudalennau S2 neu S3** ar gyfer pob digwyddiad
- nodwch enw un cwmni ac un cynllun cyfranddaliadau ym mlwch 2.1 ar Dudalen S1 a'r llall yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 2.77
- ticiwch flwch 2.2 os yw'r cyfranddaliadau yn y naill gwmni neu'r llall heb eu rhestru
- adiwch y symiau trethadwy a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.3.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch fel:

- copïau o dystysgrifau opsiynau
- manylion y symiau (os oes rhai) a daloch er mwyn prynu'r opsiwn
- copïau o hysbysiadau arfer
- manylion y symiau a daloch i brynu'r gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (pris arfer neu bris opsiwn)
- copïau cytundebau opsiynau cyfranddaliadau EMI a chyfeirnod unigryw'r opsiynau
- unrhyw ohebiaeth neu wybodaeth esboniadol arall a dderbynnir gan eich cyflogwr sy'n ymwneud â'r trafodyn
- gwybodaeth am werth marchnad y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar y dyddiadau perthnasol
- cofnodion swm y Dreth Incwm a dalwyd neu'r dreth y rhoddwyd cyfrif amdani o dan TWE ar unrhyw ddigwyddiad trethadwy
- cofnodion swm unrhyw CYG y cyflogwr a dalwyd gennych ar unrhyw swm trethadwy.

Os nad yw'r wybodaeth hon gennych, efallai y gall y cwmni y mae ei warantau yn ymwneud â hyn neu eich cyflogwr helpu.

Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei rhoi ar y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau yn dibynnu ar y math o gynllun cyfranddaliadau gweithwyr rydych yn elwa ohono, neu ar yr amgylchiadau rydych yn derbyn y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth neu'r buddiannau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r nodiadau isod yn rhoi manylion am reolau treth ac yn dweud wrthych ba flychau y dylech eu cwblhau.

Os ydych ond wedi arfer opsiwn o dan gynllun ar sail cynilion a gymeradwywyd, gweler tudalen SN3 y Nodiadau hyn.

Mae'r tudalennau canlynol yn eich galluogi i gyfrifo swm trethadwy y buddiannau o dan gynllun cyfranddaliadau'r cyflogai neu gynllun opsiwn cyfranddaliadau.

Ticiwch y blychau perthnasol ar Dudalen S1 y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau os oes unrhyw gyfranddaliadau 'heb eu rhestru', hynny yw, pob cyfranddaliad na restrir ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig.

Nid yw'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau yn cwmpasu'r Dreth Enillion Cyfalaf a allai fod yn ddyledus pan werthwch gyfranddaliadau:

- os gwnaethoch waredu asedion trethadwy yn ystod y flwyddyn a oeddynt yn werth fwy na £35,200, **neu**
- os oes gennych enillion caniatáol y mae'n rhai eu didynnu o'ch enillion trethadwy ar gyfer y flwyddyn ac mae cyfanswm eich enillion cyfalaf cyn didynnu colledion a chymhwyso rhyddhad meinhau yn fwy na £8,800, **neu**
- os nad oes gennych enillion caniatáol y mae'n rhaid eu didynnu o'ch enillion trethadwy ar gyfer y flwyddyn ac ar ôl cymhwyso rhyddhad meinhau, mae cyfanswm eich enillion trethadwy yn fwy na £8,800, **neu**
- os ydych am wneud cais am golled cyfalaf ganiatáol, neu os ydych am wneud unrhyw gais ynghylch enillion cyfalaf, neu ddewis am y flwyddyn

gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Enillion Cyfalaf, neu am wybodaeth bellach gweler, *Taflen Gymorth IR287: Employee share schemes and Capital Gains Tax.*

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Peidiwch â chynnwys difidendau o gyfranddaliadau a gafwyd drwy gynlluniau cyfranddaliadau'r cyflogai. Dylid cynnwys y rhain yng nghwestiwn 10 ar dudalen 3 neu os ydynt yn rhai tramor ac yn fwy na £300 yng Nghwestiwn 6 ar dudalen 2 eich Ffurflen Dreth.

Pan fydd treth wedi'i thalu i ni o dan y system TWE ar ddigwyddiad trethadwy a gynhwysir yn y Tudalennau hyn, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR218: Employees' shares: Operation of Pay As You Earn (PAYE) and National Insurance Contributions (NICs).*

Cynlluniau cyfranddaliadau cyflogai

Cymeradwyir rhai cynlluniau cyfranddaliadau cyflogai gennym ni, tra na chymeradwyir eraill. Mae'r rheolau treth yn amrywio yn ôl p'un a yw'r cynllun wedi ei gymeradwyo ai peidio.

Cynlluniau cyfranddaliadau a gymeradwywyd

Mae pedwar math o gynlluniau cyfranddaliadau wedi eu cymeradwyo, a'r Cynllun Annog Rheolaeth i Gwmnïau Bach. Os gallwch fodloni rhai amodau, ni chewch eich trethu ar:

- prynu cyfranddaliadau
- derbyn cyfranddaliadau am ddim
- caniatáu opsiwn i brynu cyfranddaliadau
- arfer opsiwn i brynu cyfranddaliadau
- cyfranddaliadau sy'n peidio â bod yn amodol ar Gynllun Annog Perchenogaeth Cyfranddaliadau

(Gallech gael eich trethu o hyd ar unrhyw ddifidendau ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf pan werthwch eich cyfranddaliadau.)

Mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych pryd y cewch eich trethu.

Cynlluniau annog perchenogaeth cyfranddaliadau a gymeradwywyd

Dylech gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyfranddaliadau a brynwyd gennych neu a ddyfarnwyd i chi, o dan un o'r cynlluniau hyn **dim ond** os peidiodd y cyfranddaliadau â bod yn amodol i'r cynllun:

- o fewn pum mlynedd i chi eu prynu neu iddynt gael eu dyfarnu i chi, **ac**
- am reswm **nad** yw'n dod o fewn un o'r eithriadau a nodir isod.

Mae'r eithriadau'n cynnwys cyfranddaliadau sy'n peidio â bod yn amodol i'r cynllun pan fod y gyflogaeth, yr ydych yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun o'i herwydd, yn gorffen oherwydd:

- anaf neu anabledd
- i chi gael eich diswyddo
- trosglwyddiad lle mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 yn gymwys
- newid yn y ffordd y rheolir y cwmni neu am i'r cwmni gael ei werthu allan o'r grŵp
- ymddeoliad ar neu ar ôl cyrraedd yr oed ymddeol a nodwyd yn y cynllun
- marwolaeth.

Peidiwch â chynnwys cyfranddaliadau difidend (cyfranddaliadau a brynwyd â difidendau sy'n codi ar gynllun cyfranddaliadau eraill sy'n cael eu hail-fuddsoddi yn y cynllun a gymeradwywyd). Os bydd cyfranddaliadau difidend yn peidio â bod yn amodol i'r cynllun

- o fewn tair blynedd o'u caffael, **ac**
- am reswm **nad** yw'n dod o fewn un o'r eithriadau a nodir uchod

dylid cynnwys swm y difidend a ddefnyddiwyd i brynu'r cyfranddaliadau yng ngwestiwn 10 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth, yn y flwyddyn pan maent yn peidio â bod yn amodol i'r cynllun.

Dylech gynnwys difidendau gan gwmnïau tramor a ddefnyddiwyd i brynu cyfranddaliadau am y flwyddyn y peidiodd y cyfranddaliadau fod yn amodol i'r cynllun yn y Tudalennau Tramor.

Os yw'r cyfranddaliadau'n agored i'w fforffedu, ni fydd rhaid talu Treth Incwm pan gânt eu fforffedu.

Mae'r swm y codir Treth Incwm arno yn dibynnu ar ba hyd y cafodd y cyfranddaliadau eu cadw yn y cynllun. Os cadwyd y cyfranddaliadau am lai na 3 blynedd, bydd y swm trethadwy yn gyfwerth â'u gwerth ar y farchnad ar y dyddiad y peidiodd y cyfraniadau fod yn amodol i'r cynllun.

Enghraifft 1a
2 Hydref 2005: dyfernir 400 o gyfranddaliadau eich cwmni i chi ar adeg pan fod eu gwerth marchnad yn £5 y cyfranddaliad. Nid yw'r cyfranddaliadau hyn yn agored i'w fforffedu.

9 Ebrill 2006: rydych yn gadael y cwmni (nid am un o'r rhesymau a nodir fel eithriad yn y golofn gyferbyn) ac mae'r 400 o gyfranddaliadau'n peidio â bod yn amodol i'r cynllun. Gwerth marchnad y cyfranddaliadau yw £6 yr un.

Y swm trethadwy yw:
Gwerth marchnad y cyfranddaliadau pan maent yn peidio â bod yn amodol i'r cynllun yw (400 x £6) = £2,400.

Os oedd y cyfranddaliadau'n y cynllun am o leiaf 3 blynedd ond yn llai na 5 mlynedd, mae'r swm y codir treth arno yn amodol ar y cynllun neu, os yw'n is, ar eu gwerth ar y farchnad ar y dyddiad y cawsant eu dyfarnu i chi neu eu prynu ar eich rhan.

Enghraifft 1b
Rydych yn caffael y cyfranddaliadau partneriaeth canlynol o dan y cynllun

20 cyfranddaliad @ £5 yr un ar 1 Tachwedd 2002

2 Ebrill 2007: rydych yn gadael y cwmni (nid am un o'r rhesymau a nodir fel eithriad yn y golofn gyferbyn) ac mae'r cyfranddaliadau'n peidio â bod yn amodol i'r cynllun. Gwerth Marchnad y cyfranddaliadau yw £6 yr un.

Cyfrifir y swm trethadwy fel a ganlyn:
Cadwyd 20 cyfranddaliad yn y cynllun am dros 3 blynedd ond am lai na 5 mlynedd. Cewch eich trethu ar eu gwerth marchnad isaf pan brynwyd y cyfranddaliadau (£5) neu bryd gadawodd y cyfranddaliadau'r cynllun (£6).

Cyfanswm trethadwy:
Gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad y dyfarniad
(20 x £5) = £100

Os bydd eich cyfranddaliadau'n peidio â bod yn amodol i'r cynllun o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn Enghreifftiau 1a neu 1b, cwblhewch:

- blychau 2.28 i 2.29 ar Dudalen S1
- blychau 2.64 i 2.68 ar Dudalen S3.

Yna defnyddiwch Daflen Waith 1 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 1

Gwerth marchnad y cyfranddaliad (blwch 2.67)	**A**	£
Nifer y cyfranddaliadau sy'n peidio â bod yn amodol i'r cynllun (blwch 2.68)	**B**	
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.30)	**C** blwch A x blwch B	£

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch C uchod, nodwch y swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41.

Opsiynau gwarantau

Dim ond un copi o dudalen S1 y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau y mae angen i chi ei chwblhau – mae'n grynodeb o'r holl ddigwyddiadau trethadwy yn y flwyddyn. Dylid cynnwys unrhyw ffigurau o symiau trethadwy ar dudalen S1 ym mlychau 2.40 a 2.42 hefyd.

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion a gymeradwywyd

Mae angen i chi gynnwys gwybodaeth am opsiwn o dan un o'r cynlluniau (Cynilo Wrth Ennill) hyn yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau, **dim ond** os ydych wedi arfer yr opsiwn:

- o fewn tair blynedd o'i dderbyn, **ac**
- am fod y cwmni, rydych yn gweithio iddo wedi cael ei werthu neu ei drosfeddiannu.

Yn yr achos hwn cewch eich trethu ar y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar yr adeg y cafodd yr opsiwn ei arfer a'r swm a dalwyd am y cyfranddaliadau.

Enghraifft 2

1 Ionawr 2005: Rydych yn cytuno i gynilo £100 y mis am bum mlynedd a chaniateir opsiwn o gael 3,000 o gyfranddaliadau'n y prif gwmni. Pris yr opsiwn yw £2 y cyfranddaliad.

1 Ionawr 2007: Mae'r prif gwmni yn gwerthu'r cwmni rydych yn gweithio iddo i grŵp arall. Gallwch arfer yr opsiwn hyd at y swm rydych wedi ei gynilo hyd yn hyn, drwy'r cynllun cynilo.

1 Mawrth 2007: Rydych yn arfer yr opsiwn gan ddefnyddio'r £2,600 (26 mis ar £100) a gynilwyd gennych hyd yn hyn ac yn prynu 1,300 o gyfranddaliadau am £2 y cyfranddaliad. Gwerth marchnad y cyfranddaliadau hyn yw £3 y cyfranddaliad.

Y swm trethadwy yw:

• gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd	£3 x 1,300	=	£3,900
• *llai'r* pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	£2 x 1,300	=	£2,600
Swm trethadwy			**£1,300**

Os gwnaethoch arfer opsiwn o dan yr amgylchiadau hyn, dylech gwblhau:

- blychau 2.1 a 2.2 ar Dudalen S1
- blychau 2.43 a 2.44 ar Dudalen S2, **a**
- blychau 2.45, 2.46, 2.47, 2.48 a 2.51 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd').

Yna defnyddiwch Daflen Waith 2 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 2

Gwerth marchnad y cyfranddaliad (blwch 2.51)	**A**	£
Nifer y cyfranddaliadau a brynwyd (blwch 2.47)	**B**	
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd	**C** blwch A x blwch B	£
Pris opsiwn y cyfranddaliad (blwch 2.48)	**D**	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	**E** blwch D x blwch B	£
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.3)	**F** blwch C *llai* blwch E	£

Os nad ydych wedi arfer eich opsiwn am gyfranddaliadau a gymeradwywyd ond wedi derbyn rhywbeth am ildio'r opsiwn neu am beidio ag arfer yr opsiwn, peidiwch â chwblhau'r blychau uchod. Yn lle hynny, cyfeiriwch at yr adran '**Aseinio neu ryddhau opsiynau**' ar dudalen SN6.

Cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd

Mae cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd yn cynnwys:

- cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau gweithredol a gymeradwywyd, **a**
- cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau cwmni a gymeradwywyd.

Dim ond os ydych wedi arfer opsiwn y mae'n rhaid i chi gynnwys gwybodaeth am opsiwn o dan un o'r cynlluniau hyn yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau, **a**:

- phan wnaethoch hynny nid oedd y cynllun bellach yn un a gymeradwywyd, **neu**
- roedd yn llai na thair blynedd ar ôl y dyddiad y cafodd ei ganiatáu i chi a ni wnaethoch ei arfer o fewn chwe mis o'r dyddiad perthnasol oherwydd anaf, anabledd, eich gwneud yn ddiwaith (yn unol â diffiniad y gyfraith) neu ymddeoliad ar neu ar ôl cyrraedd oed a nodir yn rheolau'r cynllun (ni ddylai fod yn llai na 55), **neu**
- roedd yn fwy na 10 mlynedd ar ôl y dyddiad caniatáu.

Yn yr achos hwn cewch eich trethu ar y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar yr adeg y gwnaethoch arfer yr opsiwn a'r swm a dalwyd am y cyfranddaliadau.

Enghraifft 3

1 Ionawr 2005: Caniateir opsiwn o gael 2,000 o gyfranddaliadau'n y cwmni rydych yn gweithio iddo. Y pris opsiwn yw £3 y cyfranddaliad.

1 Mawrth 2007: Rydych yn arfer yr opsiwn. Gwerth marchnad y cyfranddaliadau yw £5 y cyfranddaliad. Nid oes rhyddhad treth ar gael gan eich bod yn arfer opsiwn o fewn tair blynedd o ganiatáu'r opsiwn, ac felly mae'n rhaid ei gynnwys yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau.

Y swm trethadwy yw:

• gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd	£5 x 2,000	=	£10,000
• *llai'r* pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	£3 x 2,000	=	£6,000
Swm trethadwy			**£4,000**

Os yw arfer yr opsiwn o dan y cynllun hwn yn drethadwy, cwblhewch:

- blychau 2.7 a 2.8 ar Dudalen S1
- blychau 2.43 a 2.44 ar Dudalen S2, **a**
- blychau 2.45, 2.46, 2.47, 2.48, 2.49 a 2.51 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd').

Yna defnyddiwch Daflen Waith 3 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 3

Gwerth marchnad pob cyfranddaliad (blwch 2.51)	**A**	£
Nifer y cyfranddaliadau a brynwyd wrth arfer yr opsiwn (blwch 2.47)	**B**	
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd	**C** blwch A x blwch B	£
Pris opsiwn y cyfranddaliad (blwch 2.48)	**D**	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	**E** blwch D x blwch B	£
Swm a dalwyd, os o gwbl, am ganiatáu'r opsiwn (blwch 2.49)	**F**	£
Elw ar arfer yr opsiwn	**G** blwch C *llai* blwch E *llai* blwch F	£
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y Cyflogwr, a dalwyd gennych, os o gwbl, wrth arfer yr opsiwn	**H**	£
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.9)	**I** blwch G *llai* blwch H	£

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch I uchod, nodwch y swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41. Cewch fanylion gan eich cyflogwr (caiff ei gynnwys yn eich P60, neu P45 (Rhan 1A) os ydych yn gyn gyflogai) am y swm hwn ac am swm y dreth a gymerir i ystyriaeth. Dylech gynnwys y symiau hyn ym mlychau 1.8 ac 1.11 yn y Tudalennau Cyflogaeth.

Os **nad ydych wedi arfer** eich opsiwn ar y cynllun a gymeradwywyd ond wedi derbyn rhywbeth am ildio'r opsiwn, neu am beidio â'i arfer, peidiwch â chwblhau'r blychau uchod. Yn lle hynny, cyfeiriwch at yr adran '**Aseinio neu ryddhau opsiynau**' ar dudalen SN6.

Opsiynau Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI)

Dylech gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw opsiwn o dan ofynion Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau, **dim ond os bydd rhaid i chi dalu treth wrth arfer eich opsiwn.** Gellir codi treth wrth arfer eich opsiwn o dan yr amodau canlynol:

- os oedd y pris a daloch am gyfranddaliad o dan yr opsiwn, yn llai na gwerth marchnad y cyfranddaliad ar y dyddiad y cafodd yr opsiwn ei ganiatáu (opsiwn gostyngol),
- os gwnaeth digwyddiad anghymwyso (gweler isod) ddigwydd mwy na 40 diwrnod cyn y diwrnod y gwnaethoch arfer eich opsiwn.

Mae'r enghreifftiau a'r taflenni gwaith sy'n dilyn yn egluro sut i gwblhau eich Ffurflen Dreth os bydd naill ai un neu'r ddwy sefyllfa yn codi.

Bydd digwyddiadau anghymwyso yn codi pan:

1. bydd y cwmni, y mae ei gyfranddaliadau'n destun yr opsiwn, yn dod yn is-gwmni 51% o gwmni arall, neu fel arall yn dod o dan reolaeth cwmni arall neu berson arall sy'n gysylltiedig â'r cwmni, oni bai y caniateir opsiwn yn ei le a gymeradwywyd, o fewn chwe mis i'r digwyddiad hwn
2. bydd y cwmni yn peidio â bodloni gofynion gweithgareddau masnachu
3. peidiwch â bod yn gyflogai'r cwmni neu is-gwmni cymhwysol, neu'n peidio â bod yn ofynnol i chi dreulio 25 awr yr wythnos neu o leiaf 75% o'ch amser gwaith, neu ddim bellach yn treulio 25 awr yr wythnos neu 75% o'ch amser gwaith yn y fath gyflogaeth.
4. bydd amodau'r opsiwn yn cael eu hamrywio gan achosi gwerth marchnad y cyfranddaliadau, sy'n destun yr opsiwn i gynyddu neu'n achosi gofynion Atodlen 5 Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 i beidio â chael eu bodloni
5. caiff cyfalaf cyfranddaliadau'r cwmni ei amrywio heb i'r amrywio gael ei gymeradwyo o flaen llaw gan Gyllid a Thollau EM
6. caiff cyfranddaliadau eu trosi i ddosbarth gwahanol o gyfranddaliadau nad yw'n unol ag Adran 538 deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003
7. caniateir opsiwn o dan gynllun opsiwn cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EM sy'n golygu eich bod yn dal opsiynau Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI) ac opsiynau cynllun opsiwn cyfranddaliadau dewisiadol ar gyfer cyfranddaliadau gyda gwerth marchnad (fel ei bennir ar y dyddiad y caniatawyd pob opsiwn) sy'n fwy na £100,000
8. bydd y cwmni neu os yw'n brif gwmni grŵp, unrhyw gwmni grŵp, lle'r oedd y cwmni yn gwmni cymhwysol dim ond am ei fod yn paratoi i gynnal masnach gymhwysol, yn peidio â gwneud y fath baratoadau neu'n methu dechrau cynnal masnach gymhwysol o fewn dwy flynedd o'r dyddiad y caniatawyd yr opsiwn.

Enghraifft 4: Arfer opsiwn am bris gostyngol

1 Medi 2006: caniateir opsiwn EMI i chi am 50,000 cyfranddaliad am bris o 50c yr un. Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar y dyddiad hwn oedd £1. Ni daloch unrhyw beth am ganiatau'r opsiwn i chi.

5 Tachwedd 2006: rydych yn arfer yr opsiwn ac yn prynu 50,000 o gyfranddaliadau. Mae'r gwerth marchnad yn parhau'n £1 y cyfranddaliad. Rydych yn talu £3,200 CYG y cyflogwr.

Y swm trethadwy yw:

Gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar ddyddiad caniatáu'r opsiwn 50,000 x £1	=	£50,000
Ilai'r pris a daloch am y cyfranddaliadau 50,000 x 50c.	=	£25,000
		£25,000
Ilai CYG y cyflogwr a dalwyd ar adeg yr arfer		£3,200
Swm trethadwy		**£21,800**

Os oedd gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad arfer yr opsiwn yn llai na'u gwerth marchnad ar ddyddiad caniatáu'r opsiwn, cyfyngir y swm trethadwy i'r gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad ar ddyddiad arfer yr opsiwn a'r swm a dalwyd am y cyfranddaliadau, llai unrhyw CYG y cyflogwr a dalwyd gennych.

Os ydych wedi arfer opsiwn EMI a ganiatawyd am bris gostyngol, cwblhewch:

- blychau 2.13 a 2.14 ar Dudalen S1
- blychau 2.53 a 2.54 ar Dudalen S2, **a**
- blychau 2.55, 2.57 i 2.60 a 2.62 yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd'.

Yna defnyddiwch Daflen Waith 4 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 4: Arfer opsiwn am bris gostyngol

Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar y dyddiad y caniatawyd yr opsiwn (blwch 2.60)	**A**	£
Nifer y cyfranddaliadau a brynwyd drwy arfer yr opsiwn (blwch 2.57)	**B**	
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar y dyddiad caniatáu	**C**	blwch A x blwch B £
Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar ddyddiad arfer yr opsiwn (blwch 2.62)	**D**	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar ddyddiad yr arfer	**E**	blwch B x blwch D £
Pris arfer: pris opsiwn y cyfranddaliad (blwch 2.58)	**F**	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	**G**	blwch B x blwch F £
Swm a dalwyd, os rhywfaint, am ganiatau'r opsiwn (blwch 2.59)	**H**	£
Elw o ystyried gwerth marchnad ar ddyddiad y caniatau (nodwch '0' os nad oes elw)	**I**	blwch C *llai* blwch G *llai* blwch H £
Elw cyflawn o ystyried gwerth marchnad ar ddyddiad yr arfer (nodwch '0' os nad oes elw)	**J**	blwch E *llai* blwch G *llai* blwch H £
Y lleiaf o flwch I neu flwch J	**K**	£
Ilai CYG y cyflogwr a dalwyd gennych, ar arfer yr opsiwn	**L**	£
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.15)	**M**	blwch K *llai* blwch L £

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch M uchod, bydd angen i chi hefyd nodi'r swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41

Enghraifft 5: Arfer opsiwn ar ôl digwyddiad anghymwyso

1 Medi 2006: caniateir opsiwn EMI i chi am 50,000 cyfranddaliad am bris o £1 yr un. Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar y dyddiad hwn yw £1. Ni daloch unrhyw beth am yr opsiwn.

1 Chwefror 2007: mae digwyddiad anghymwyso yn digwydd ar adeg pan fo gwerth marchnad cyfranddaliad yn £2.

31 Mawrth 2007: rydych yn arfer yr opsiwn ac yn prynu 50,000 o gyfranddaliadau. Gwerth marchnad cyfranddaliad yw £3. Rydych yn talu CYG y cyflogwr o £6,400.

Y swm trethadwy yw:

Gwerth marchnad y cyfraniadau ar adeg eu prynu 50,000 x £3	=	£150,000
Ilai gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar adeg y digwyddiad anghymwyso 50,000 x £2	=	£100,000
		£50,000
Ilai CYG y cyflogwr a dalwyd ar adeg arfer yr opsiwn		£6,400
Swm trethadwy		**£43,600**

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Os ydych wedi arfer opsiwn EMI mwy na 40 diwrnod ar ôl digwyddiad anghymwyso ac mae'r cyfranddaliadau wedi codi yn eu gwerth ar ôl y digwyddiad anghymwyso, cwblhewch:

- blychau 2.13 a 2.14 ar Dudalen S1
- blychau 2.53 a 2.54 ar Dudalen S2
- blychau 2.55 i 2.59, 2.61 a 2.62 ar Dudalen S2 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd').

Yna defnyddiwch Daflen Waith 5 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Os nad yw'r cyfranddaliadau a gaffaelwyd gennych o dan yr opsiwn wedi cynyddu yn eu gwerth ers y digwyddiad anghymwyso, ni fydd unrhyw dreth i'w thalu drwy arfer yr opsiwn - nid oes angen i chi gwblhau'r daflen waith hon. Os cafodd yr opsiwn ei ganiatáu am bris gostyngol efallai y bydd treth i'w thalu - defnyddiwch Daflen Waith 4 ac yna Taflen Waith 6.

Taflen Waith 5: Arfer opsiwn ar ôl digwyddiad anghymwyso

Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar ddyddiad arfer yr opsiwn (blwch 2.62)	**A**	£
Nifer y cyfranddaliadau a brynwyd drwy arfer yr opsiwn (blwch 2.57)	**B**	
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar ddyddiad yr arfer	**C** blwch A x blwch B	£
Gwerth marchnad y cyfranddaliad ar ddyddiad y digwyddiad anghymwyso (blwch 2.61)	**D**	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar adeg y digwyddiad anghymwyso	**E** blwch B x blwch D	£
Cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau rhwng adeg y digwyddiad anghymwyso ac arfer yr opsiwn (nodwch '0' os nad oedd cynnydd mewn gwerth)	**F** blwch C *llai* blwch E	£
Pris arfer: pris opsiwn y cyfranddaliad (blwch 2.58)	**G**	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	**H** blwch B x blwch G	£
Y swm a dalwyd, os o gwbl, am ganiatáu'r opsiwn (blwch 2.59)	**I**	£
Elw cyflawn o ystyried gwerth marchnad ar ddyddiad yr arfer (nodwch '0' os nad oes elw)	**J** blwch C *llai* blwch H *llai* blwch I	£
Y lleiaf o flwch F a blwch J	**K**	£
llai CYG y cyflogwr a dalwyd gennych, os o gwbl, ar arfer yr opsiwn	**L**	£
Y swm trethadwy (copïwch i flwch 2.15)	**M** blwch K *llai* blwch L	£

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch M, yna bydd angen i chi nodi'r swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41.

Enghraifft 6: Arfer opsiwn am bris gostyngol ar ôl digwyddiad anghymwyso

1 Medi 2006: caniateir opsiwn EMI i chi am 50,000 cyfranddaliad am bris o 50c yr un. Gwerth marchnad y cyfranddaliad yw £1. Ni daloch unrhyw beth am ganiatáu'r opsiwn hwn.

1 Chwefror 2007: mae digwyddiad anghymwyso yn digwydd. Gwerth marchnad cyfranddaliad ar yr adeg hon yw £2.

31 Mawrth 2007: rydych yn arfer yr opsiwn ac yn prynu 50,000 o gyfranddaliadau ar adeg pan fod gwerth marchnad cyfranddaliad yn £3. Rydych yn talu CYG y cyflogwr o £9,600.

Y symiau trethadwy yw:

(A)	gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar y dyddiad caniatáu yw 50,000 x £1	=	£50,000
	llai'r pris a dalwyd am y cyfranddaliadau 50,000 x 50c	=	£25,000
			£25,000
	Swm trethadwy		**£25,000**
(B)	gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar adeg eu prynu trwy arfer 50,000 x £3	=	£150,000
	llai gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar adeg y digwyddiad anghymwyso 50,000 x £2	=	£100,000
			£50,000
	llai CYG y cyflogwr a dalwyd ar adeg arfer		£9,600
	Swm trethadwy		**£40,400**
Cyfanswm y swm trethadwy £25,000 + £40,400		=	**£65,400**

Os oedd gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad arfer yn llai na'r gwerth marchnad ar ddyddiad caniatáu, cyfyngir y swm trethadwy i'r gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad ar ddyddiad arfer a'r swm a dalwyd am y cyfranddaliadau, llai unrhyw CYG y cyflogwr a dalwyd gennych.

Os ydych wedi arfer opsiwn EMI (a ganiatawyd am bris gostyngol i werth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad y caniatáu) mwy na 40 diwrnod ar ôl y digwyddiad anghymwyso, cwblhewch:

- blychau 2.13 a 2.14 ar Dudalen S1
- blychau 2.53 a 2.54 ar Dudalen S2, **a**
- blychau 2.55 i 2.62 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd') ar Dudalen S2.

Yna cwblhewch flychau A - K yn Nhaflen Waith 4 a blychau A - K yn Nhaflen Waith 5, a defnyddiwch Daflen Waith 6 i gyfrifo'r swm trethadwy pan fod

- y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau'n llai na'u gwerth marchnad ar y dyddiad y caniatawyd yr opsiwn, **a**
- digwyddiad anghymwyso wedi digwydd mwy na 40 diwrnod cyn arfer yr opsiwn.

Taflen Waith 6: Arfer opsiwn am bris gostyngol ar ôl digwyddiad anghymwyso

Elw o ystyried gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad caniatáu'r opsiwn (blwch K yn Nhaflen Waith 4)	**A**	£
Cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau rhwng adeg y digwyddiad anghymwyso ac arfer yr opsiwn (blwch K yn Nhaflen Waith 5)	**B**	£
Blwch A + blwch B	**C**	£
llai CYG y cyflogwr a dalwyd gennych, ar arfer yr opsiwn	**D**	£
Y swm trethadwy (copïwch i flwch 2.15)	**E** blwch C *llai* blwch D	£

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch E yn Nhaflen Waith 6, nodwch gyfanswm y symiau hynny y gweithredwyd TWE arnynt, ym mlwch 2.41.

Os **nad ydych wedi arfer** eich opsiwn EMI ond wedi derbyn rhywbeth am ildio'r opsiwn, neu am beidio â'i arfer, peidiwch â chwblhau Taflen Waith 6. Yn lle hynny, dylech ddarllen '**Aseinio neu ryddhau opsiynau**' a welir isod.

Pob cynllun opsiwn gwarantau

Aseinio neu ryddhau opsiynau

Os byddwch yn derbyn rhywbeth yn gyfnewid am:

- trosglwyddo eich opsiwn, **neu**
- rhyddhad eich opsiwn, **neu**
- peidio ag arfer eich opsiwn, **neu**
- fel arall, mewn cysylltiad â'ch opsiwn,

bydd yn rhaid i chi dalu Treth Incwm ar yr arian parod neu'r gwerth a gewch oni bai y byddwch yn rhyddhau eich opsiwn yn gyfnewid am opsiwn arall.

Cewch eich trethu ar yr hyn a dderbyniwch, p'un a ganiatawyd yr opsiwn o dan gynllun a gymeradwywyd ai peidio.

Ceir fwy o wybodaeth ar ein gwefan **www.hmrc.gov.uk/shareschemes**

Os ydych wedi llunio Dewis CYG ffurfiol i gwrdd â CYG y cyflogwr sy'n ddyledus wrth arfer yr opsiwn, nodwch swm CYG y cyflogwr a dalwyd gennych ym mlwch E yn nhaflen waith 7.

Os ydych wedi llunio cytundeb CYG i gwrdd â CYG y cyflogwr, nodwch swm CYG y cyflogwr a dalwyd ym mlwch E, dim ond os ydych wedi talu hwn i'ch cyflogwr cyn 5 Mehefin 2007.

Enghraifft 7

1 Hydref 2005: Caniateir opsiwn o gael 1,000 o gyfranddaliadau'n y cwmni rydych yn gweithio iddo. Rydych yn talu £1 am yr opsiwn.

1 Chwefror 2007: rydych yn derbyn £2,500 yn gyfnewid am ganslo'r opsiwn. Rydych yn talu CYG y cyflogwr o £319.87.

Y swm trethadwy yw:

• y swm a gawsoch am ryddhau'r opsiwn	=	£2,500
• *llai'r* swm a dalwyd am yr opsiwn	=	£1
		£2,499
• *llai* CYG y cyflogwr a dalwyd pan gafodd yr opsiwn ei ganslo neu ei ryddhau	=	£320
Swm trethadwy		**£2,179**

Os ydych wedi derbyn rhywbeth yn gyfnewid am aseinio neu ryddhau eich opsiwn, neu am beidio â'i arfer, neu fel arall mewn perthynas â'ch opsiwn cwblhewch:

- blychau 2.4 a 2.5 (opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion a gymeradwywyd), **neu**
  blychau 2.10 a 2.11 (opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd), **neu**
  blychau 2.16 a 2.17 (opsiynau EMI), **neu**
  blychau 2.25 a 2.26 (opsiynau gwarantau nas cymeradwywyd)
- blychau 2.43 a 2.44 (opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion ac opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol ac opsiynau cyfranddaliadau nas cymeradwywyd) **neu**
  blychau 2.53 a 2.54 (opsiynau EMI)
- blychau 2.45, 2.49 a 2.52 yn y golofn 'Opsiynau wedi'u canslo/rhyddhau' (opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion ac opsiynau dewisiadol ac opsiynau gwarantau nas cymeradwywyd), **neu**
  blychau 2.55, 2.59 a 2.63 yn y golofn 'Opsiynau wedi'u canslo/rhyddhau' (opsiynau EMI).

Yna defnyddiwch Daflen Waith 7 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 7

Swm a gafwyd (blwch 2.52 (**neu** flwch 2.63 EMI))	**A**	£
Swm a dalwyd, os o gwbl, am yr opsiwn (blwch 2.49 (**neu** flwch 2.59 EMI))	**B**	£
Y swm, os o gwbl, sy'n agored i dreth incwm ar ganiatáu'r opsiwn	**C**	£
Elw a wnaed mewn cysylltiad â'r opsiwn	**D** (blwch A *llai* blwch B *llai* blwch C)	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych chi	**E**	£
Swm trethadwy	**F** (blwch D *llai* blwch E)	£

Yna nodwch y swm trethadwy F yn:

- blwch 2.6 (opsiynau cyfranddaliadau ar sail cynilion a gymeradwywyd), neu
- blwch 2.12 (opsiynau cyfranddaliadau dewisiadol a gymeradwywyd), **neu**
- blwch 2.18 (opsiynau Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI)), neu
- blwch 2.27 (opsiynau gwarantau nas cymeradwywyd).

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a gafwyd uchod, bydd angen i chi hefyd nodi'r swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41. Cewch fanylion am y swm hwn gan eich cyflogwr (wedi ei gynnwys ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) os ydych yn gyn gyflogai) ac am swm y dreth a gymerir i ystyriaeth. Dylech gynnwys y symiau hyn ym mlychau 1.8 a 1.11 ar y Tudalennau Cyflogaeth.

Cynlluniau opsiynau gwarantau nas cymeradwywyd (gan gynnwys opsiynau cyfranddaliadau)

Os na chafodd y cynllun ei ganiatáu o dan gynllun a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EM, ac nid oedd yn opsiwn EMI gymhwysol, gallech gael eich trethu ar:

- ganiatáu opsiwn gwarantau, **ac**
- arfer opsiwn gwarantau.

Caniatáu opsiwn gwarantau

Gweler y nodiadau ar dudalen SN7 o dan opsiynau Gwarantau - materion preswylio.

Arfer opsiwn gwarantau

Mae angen i chi gynnwys arfer unrhyw opsiwn o gynlluniau nas cymeradwywyd ar Dudalen S1 y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau.

Yn yr achos hwn cewch eich trethu ar y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y gwarantau ar yr adeg y gwnaethoch arfer yr opsiwn a'r swm a daloch am y gwarantau (gan gynnwys cost yr opsiwn, os o gwbl).

Os nad oes rhaid i chi arfer eich opsiwn i gaffael y gwarantau y mae'r opsiwn yn cyfeirio atynt, mae'n rhaid i chi gwblhau Taflen Waith 8 o hyd, fel pe baech wedi arfer yr opsiwn pan wnaethoch gaffael y cyfranddaliadau.

Os ydych wedi llunio Dewis CYG ffurfiol i gwrdd â CYG y cyflogwr sy'n ddyledus wrth arfer yr opsiwn, nodwch swm CYG y cyflogwr a dalwyd gennych ym mlwch I yn nhaflen waith 8.

Os ydych wedi llunio cytundeb CYG i gwrdd â CYG y cyflogwr, nodwch swm CYG y cyflogwr a dalwyd ym mlwch I, dim ond os ydych wedi talu hwn i'ch cyflogwr cyn 5 Mehefin 2007.

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Enghraifft 8

1 Hydref 2005: Caniateir opsiwn i gael 1,000 o gyfranddaliadau'n y cwmni rydych yn gweithio iddo. Pris yr opsiwn yw £2 y cyfranddaliad. Rydych yn talu £1 am yr opsiwn.

1 Chwefror 2007: Rydych yn arfer yr opsiwn ac yn prynu 1,000 o gyfranddaliadau am £2 y cyfranddaliad. Gwerth marchnad y cyfranddaliadau yw £5 y cyfranddaliad. Rydych yn talu CYG y cyflogwr o £383.87.

Y swm trethadwy yw:

• gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd	£5 x 1000	=	£5,000
• *llai'r* pris a dalwyd am y cyfranddaliadau	£2 x 1000	=	£2,000
			£3,000
• *llai'r* swm a dalwyd am yr opsiwn			£1
• elw ar arfer yr opsiwn cyfranddaliadau			£2,999
• *llai* CYG y cyflogwr a dalwyd ar adeg yr arfer			£384
Swm trethadwy			**£2,615**

Os ydych wedi arfer opsiwn o dan gynllun nas cymeradwywyd cwblhewch:

- blychau 2.22 a 2.23 ar Dudalen S1,
- blychau 2.43 a 2.44 ar Dudalen S2, **a**
- blychau 2.45, 2.46, 2.47, 2.48, 2.49 a 2.51 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd').

Yna defnyddiwch Daflen Waith 8 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 8

Gwerth marchnad y gwarantau (blwch 2.51)	**A**	£
Nifer y gwarantau (blwch 2.47)	**B**	£
Cyfanswm gwerth marchnad y gwarant a brynwyd	**C** blwch A x blwch B	£
Pris Arfer: Pris opsiwn a dalwyd am bob gwarant (blwch 2.48)	**D**	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth	**E** blwch B x blwch D	£
Swm a dalwyd, os o gwbl, am ganiatáu'r opsiwn (blwch 2.49)	**F**	£
Y swm, os o gwbl, sy'n agored i dreth incwm ar ganiatáu'r opsiwn	**G**	£
Elw ar arfer yr opsiwn	**H** blwch C *llai* (blwch E + blwch F + blwch G)	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych chi	**I**	£
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.24)	**J** blwch H *llai* blwch I	£

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm a nodwyd ym mlwch J, nodwch y swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41. Cewch fanylion am y swm hwn gan eich cyflogwr (ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) os ydych yn gyn gyflogai) ac am y dreth a gymerir i ystyriaeth. Dylech gynnwys y symiau hyn ym mlychau 1.8 a 1.11 ar y Tudalennau Cyflogaeth.

Opsiynau Gwarantau – materion preswyl

Os caniatawyd opsiwn i chi neu os ydych wedi arfer opsiwn, mae rhai amgylchiadau pan na fydd y rheolau cyffredinol yn gymwys.

Os na chewch eich trethu yn y DU ar yr holl incwm o'ch cyflogaeth oherwydd

- eich statws preswyl, **a**
- y lle y cyflawnoch ddyletswyddau eich cyflogaeth,

gall unrhyw opsiwn a ganiatawyd i chi oherwydd y gyflogaeth honno fod yn agored i reolau arbennig. Er enghraifft, gallech orfod talu treth pan ganiateir yr opsiwn i chi. Ar gyfer opsiynau a ganiatawyd i chi mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yn rhaid i chi gwblhau Taflen Waith 9.

Os yw hyn yn gymwys i chi, cwblhewch flychau 2.19 a 2.20 ar Dudalen S1, blychau 2.43 a 2.44 ar Dudalen S2, a blychau 2.45, 2.47, 2.48, 2.49 a 2.50 (yn y golofn 'Opsiynau a arferwyd').

Yna defnyddiwch Daflen Waith 9 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 9

Gwerth marchnad y gwarant (blwch 2.50)	**A**	£
Pris opsiwn y gwarant (blwch 2.48)	**B**	£
Gostyngiad ar bob gwarant	**C** blwch A *llai* blwch B	£
Nifer y gwarantau (blwch 2.47)	**D**	
Gwerth yr opsiwn*	**E** blwch C x blwch D	£
Swm a dalwyd, os o gwbl, am ganiatáu'r opsiwn (blwch 2.49)	**F**	£
Swm trethadwy (copïwch i flwch 2.21)	**G** blwch E *llai* blwch F	£

* Dyma isafswm y gwerth a osodwyd ar yr opsiwn. Os credwch yr oedd gwerth yr opsiwn yn uwch rhowch eich prisiad ym mlwch E.

Os gweithredwyd TWE ar unrhyw ran o'r swm ym mlwch G, bydd rhaid i chi hefyd nodi'r swm y gweithredwyd TWE arno ym mlwch 2.41. Cewch fanylion am y swm hwn gan eich cyflogwr (ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) os ydych yn gyn gyflogai) ac am y dreth a gymerir i ystyriaeth. Dylech gynnwys y symiau hyn ym mlychau 1.8 a 1.11 ar y Tudalennau Cyflogaeth.

Os gwnaethoch dalu Treth Incwm pan ganiatawyd eich opsiwn, gall y swm a dalwyd lleihau swm y Dreth Incwm i'w thalu (os o gwbl) ar y swm trethadwy G. Ni all y rhyddhad credyd treth fod yn fwy na'r dreth i'w thalu ar y swm trethadwy G (gweler Taflen Waith 9 uchod). Nodwch swm y Dreth Incwm a dalwyd pan ganiatawyd eich opsiwn ym mlwch 2.76 ar dudalen S3. Ar gyfer opsiynau a gafodd eu harfer gennych mewn amgylchiadau o'r fath, dilynwch yr arweiniad yn *Nhaflen Gymorth IR216: Securities as benefits.* Ceir manylion pellach hefyd yn *Nhaflen Gymorth IR211: Employment - residence and domicile issues.*

Gwarantau a gaffaelwyd

Cewch eich trethu ar warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, a gewch chi neu berson arall am ddim neu'n rhad, oherwydd eich cyflogaeth. Mae 'gwarantau'n' cynnwys cyfranddaliadau a llawer o asedion ariannol eraill. Gwelir diffiniadau o'r hyn a olygwn gan 'cysylltiedig â chyflogaeth' isod. Cewch arweiniad pellach yn *Nhaflen Gymorth IR216* ac *IR219*.

Nodiadau ar GYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU

Beth a olygir gan 'Cysylltiedig â chyflogaeth'

Mae 'cysylltiedig â chyflogaeth' yn golygu y tybir bod y gwarantau wedi'u caffael drwy rinwedd eich cyflogaeth pan roddir y cyfle i chi neu berson arall i'w caffael gan eich cyflogwr neu berson sy'n gysylltiedig â'ch cyflogwr.

Rhestr gwarantau

- Cyfandaliadau mewn corff corfforedig (ble bynnag y'u hymgorfforwyd) neu mewn unrhyw gorff heb ei ymgorffori a gyfansoddwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- hawliau o dan gontractau yswiriant heblaw contractau yswiriant a eithriwyd
- dyledebion, stoc dyledeb, stoc benthyciad, bondiau, tystysgrifau adneuon ac offerynnau eraill sy'n creu neu'n cydnabod dyled (heblaw contractau yswiriant)
- gwarantau ac offerynnau eraill sy'n rhoi'r hawl i'w deiliaid i danysgrifio am warantau (p'un a ydynt yn bodoli neu'n adnabyddadwy)
- tystysgrifau ac offerynnau eraill sy'n rhoi hawliau ynghylch gwarantau a ddelir gan bersonau heblaw'r personau y rhoddwyd yr hawliau iddynt ac y gallai eu trosglwyddo, gael ei effeithio heb ganiatâd y personau hynny
- unedau mewn cynllun buddsoddi cyfunol
- blaendrafodion, a
- hawliau o dan gytundebau ar gyfer gwahaniaethau neu gytundebau sy'n debyg i gytundebau ar gyfer gwahaniaethau (heblaw contractau yswiriant).

• Gwarantau a gaffaelwyd drwy eich cyflogaeth

blychau 2.31 i 2.33 Gallwch chi neu berson arall gael gwarantau trwy eich cyflogaeth mewn amryw ffyrdd. Os ydych chi neu berson arall wedi caffael gwarantau, neu fuddiannau mewn gwarantau, am ddim neu'n rhad drwy eich cyflogaeth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR219: Securities acquired from your employment* i'ch helpu i gwblhau Tudalennau S1 ac S2 o'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau. Os gweithredwyd TWE efallai y bydd angen *Taflen Gymorth IR218: Employees' shares: Operation of Pay As You Earn (PAYE) and National Insurance Contributions (NICs),* arnoch hefyd.

• Gwarantau neu opsiynau a gaffaelwyd fel rhan o gynllun osgoi treth

blychau 2.31 i 2.33 Pan fyddwch wedi caffael gwarantau, neu opsiwn, fel rhan o gynllun i osgoi treth neu CYG, caiff unrhyw opsiwn ei drin fel gwarant a chaiff gwerth llawn y gwarant (neu opsiwn a gaiff ei drin fel gwarant trosiadwy) ei drethu. Pennir y gwerth llawn trwy dybio fod cyfyngiadau wedi ei dileu ac y gellir arfer yr opsiwn ar unwaith.

• Gwarantau sy'n agored i risg fforffedu

blychau 2.31 i 2.39 Os cawsoch warantau drwy eich cyflogaeth, y gellir eu fforffedu os na fodlonir rhai amodau (nid yw hyn yn cynnwys cyfranddaliadau a dderbyniwyd o Gynllun Annog Perchenogaeth Cyfranddaliadau a Gymeradwywyd, sy'n agored i'w fforffedu), efallai y cewch eich trethu:

- pan gewch y gwarantau, os gall y risg fforffedu barhau am fwy na phum mlynedd ar ôl y dyddiad derbyn **neu**
- rydych wedi dewis gyda'ch cyflogwr i dalu treth incwm pan fyddwch yn derbyn y gwarantau, **neu**
- pan waredir y gwarantau cyn i'r risg fforffedu gael ei diddymu, **neu**
- pan fodlonir yr amodau a diddymir y risg fforffedu.

Os bydd hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR219: Securities acquired from your employment* i'ch helpu i gwblhau'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau. Efallai y bydd angen *Taflen Gymorth IR217: Securities acquired: post acquisition charges* arnoch chi hefyd, os bydd treth yn daladwy ar ryw adeg ar ôl caffael y gwarantau. Os gweithredwyd TWE efallai y bydd angen *Taflen Gymorth IR218: Employees' shares: Operation of Pay As You Earn (PAYE) and National Insurance contributions (NICs),* arnoch hefyd.

• Gwarantau fel buddiannau

blychau 2.34 i 2.36 Os ydych yn caffael gwarantau am lai na'u gwerth marchnad, ac os nad yw'r budd o wneud hynny yn drethadwy fel arall i Dreth Incwm, caiff swm y tan brisiad ei drin fel benthyciad. Os ydych yn caffael gwarantau 'a delir yn rhannol' cewch eich trin fel petaech wedi derbyn benthyciad di-log sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y gwarantau a dalwyd yn llawn a'r swm a dalwyd mewn gwirionedd. Os byddwch wedyn yn gwaredu'r cyfranddaliadau neu os cewch eich rhyddhau rhag talu unrhyw swm sy'n ddyledus, efallai y bydd treth incwm ychwanegol yn ddyledus. Os yw hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR216: Securities as benefits.*

• Digwyddiadau ôl-gaffael

blychau 2.37 i 2.39 Os byddwch yn caffael gwarantau, neu fuddiant mewn gwarantau, oherwydd eich cyflogaeth, gallech gael eich trethu yn ddiweddarach pan fydd:

- cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth unrhyw warantau yn cael eu newid, **neu**
- cewch 'fuddiannau arbennig' am eich bod yn berchen ar y gwarantau, **neu**
- gwarantau'n trosi i warantau â disgrifiad gwahanol oherwydd hawliau trosi a ddaw drwy eich swydd neu'ch cyflogaeth.
- cafodd gwerth marchnad y gwarantau ei gynyddu neu ei ostwng yn artiffisial, **neu**
- caiff eich gwarantau ei gwaredu o dan rai amodau penodol am bris sy'n fwy na'u gwerth marchnad.

Os bydd hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR217: Securities acquired: post acquisition charges.*

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.